# Arolygydd ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEF)

## Pecyn Gwybodaeth

## Dyddiad cau: 7 Ionawr 2026

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Croeso



Mae'n adeg gyffrous i ymuno ag Estyn. Yn ystod y cyfnod hwn o newid yn y system addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ein blaenoriaethau yw sicrhau bod safonau'n rhagorol a chefnogi'r system addysg. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn:

- yn cyflwyno arolygiadau o ansawdd uchel dan ein fframwaith newydd ar gyfer ysgolion ac UCDau, gan gefnogi ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a diwygio anghenion dysgu ychwanegol
- yn parhau i gyflwyno arolygiadau a'n hymgysylltiad rheolaidd â cholegau addysg bellach, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol
- yn parhau i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cefnogi amrywiaeth a lleihau effaith tlodi ar ddysgwyr
- yn gweithio gyda Medr i ailddylunio ein gwaith yn y sectorau ôl-16, yn enwedig ar gyfer y trefniadau prentisiaeth newydd
- yn chwarae rôl flaenllaw mewn datblygu'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar y cyd â'n rhanddeiliaid
- yn cyhoeddi cyfres o adolygiadau thematig a'n cyhoeddiad mwyaf blaenllaw, sef Adroddiad Blynyddol PAEF
- yn darparu hyfforddiant i bron i fil o ymarferwyr addysg a hyfforddiant sy'n cefnogi ein gwaith fel arolygwyr cymheiriaid

Rwy'n falch o arwain sefydliad y cydnabuwyd ei fod yn chwarae rôl hanfodol mewn gwella dysgu pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru. Mae dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae ein pobl wedi ymrwymo i gydweithio i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i'n rhanddeiliaid sy'n darparu atebolrwydd cyhoeddus ac yn cefnogi gwelliant.

Rydym yn chwilio am rai o'r arweinwyr disgleiriaf a gorau o bob cefndir i ymuno â ni i gyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Mae rôl Arolygydd Ei Fawrhydi (AEF) yn un gyffrous ac amrywiol sy'n rhoi golwg unigryw i chi ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Gallai gweithio i Estyn fod yn gyfle datblygu rhagorol i chi. Ymunwch â ni a bydd pob diwrnod yn sicr yn wahanol yn y rôl werth chweil hon lle bydd gennych rôl hanfodol yn gwneud yn siŵr fod arolygiad yn brofiad cadarnhaol i bawb dan sylw. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais. Hoffem glywed yn arbennig gan y rhai sydd o gefndiroedd amrywiol.

**Owen Evans, Prif Arolygydd ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**



# Beth rydyn ni'n chwilio amdano

Daw ein AEF o ystod amrywiol o gefndiroedd arwain mewn addysg a hyfforddiant. Pa lwybr bynnag y mae eich gyrfa wedi'i ddilyn hyd yma, bydd gennych hanes cryf o welliant gyda phrofiad o arloesi ar lefel strategol. Byddwch chi hefyd yn deall y tirlun addysg a hyfforddiant ehangach a rôl arolygu fel grym ar gyfer gwella.

Er enghraifft, efallai y byddwch:

- yn uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd neu'n uwch arweinydd uwchradd mewn ysgol pob oed
- yn uwch arweinydd mewn ysgol gynradd neu'n uwch arweinydd cynradd mewn ysgol pob oed
- yn gyfarwyddwr / cyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaeth gwella ysgolion neu bartner gwella ysgolion
- yn rheolwr ansawdd neu'n arweinydd mewn darparwr prentisiaethau dysgu yn y gwaith
- yn is-bennaeth neu'n gyfarwyddwr dysgu mewn coleg addysg bellach
- yn uwch arweinydd sy'n gyfrifol am ddarpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon ar draws partneriaeth Sefydliad Addysg Uwch

Ar gyfer yr ymgyrch recriwtio hon, rydym yn chwilio am bobl sydd â chefndir yn y canlynol:

- Addysg Gynradd, lle mae medrau Cymraeg yn ddymunol
- Addysg Uwchradd – Mae dwy swydd ar gael. Mae medrau Cymraeg yn **hanfodol** ar gyfer un o'r swyddi hyn ac yn ddymunol ar gyfer y llall
- Ôl-16/Colegau addysg bellach, lle mae medrau Cymraeg yn **hanfodol**
- Addysg Gychwynnol Athrawon, lle mae medrau Cymraeg yn ddymunol

Mae **statws athro cymwys (SAC)** yn ofyniad **hanfodol,** ac eithrio swydd Ol-16/Addysg bellach Colegau

# Y rôl

Byddwch yn gyfrifol am adrodd ar safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant mewn darparwyr ledled Cymru. Byddwch yn cyfrannu at ddatblygu a lledaenu arfer effeithiol ac yn meithrin gallu ar gyfer gwella yn y system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'n gyfle unigryw i brofi a choleddu arfer mewn nifer ac amrywiaeth fawr o ddarparwyr a lleoliadau addysgol eraill; eu hethos, eu cymeriad a'u hymagwedd at y cwricwlwm ac arloesi. Lle mae darparwyr yn ei chael hi'n anodd, byddwch yn datblygu dirnadaeth fanwl o heriau a sut y gellir gwneud gwelliannau.

Bydd llawer o'ch gwaith ar y safle mewn gwahanol leoliadau, felly bydd angen i chi fod yn barod i wneud cryn dipyn o deithio ar hyd a lled Cymru, ac aros dros nos yn fynych mewn gwestai. Pa bryd bynnag y bo modd, dyrennir arolygiadau gerllaw eich cartref i chi. Wrth weithio o gartref rhwng arolygiadau, fe ddowch o hyd i gydbwysedd gwerthfawr rhwng bywyd a gwaith.

Yn sgil y gofyniad i deithio'n fynych ledled Cymru, dylai fod trwydded yrru gyfredol gennych, a defnydd o gar neu'r gallu i wneud trefniadau teithio amgen addas.

Ni fydd dau ddiwrnod fyth yr un fath, gallent gynnwys unrhyw beth o:

- siarad â dysgwyr am eu gwaith
- ymweld â gwersi
- siarad â rhieni am ddarparwr addysg eu plentyn
- siarad ag athrawon ac arweinwyr
- ym maes ôl-16, arsylwi gweithgareddau gweithdy a siarad â chyflogwyr, hyfforddwyr ac aseswyr
- yn cyflwyno gweithdai i bartneriaid allanol

Gan weithio fel arolygydd arweiniol a chyfrannu at waith ar draws ystod o sectorau, byddwch yn datblygu dealltwriaeth hanfodol o bob darparwr, gan adrodd yn wrthrychol am safonau ac effeithiolrwydd. Byddwch yn llunio barnau ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth ym mhob darparwr, gan gynnwys pa mor dda y caiff dysgwyr eu cadw'n ddiogel.

Gan roi buddiannau pennaf dysgwyr uwchlaw pob dim arall, byddwch yn sicrhau bod eich barnau yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Wrth rannu eich gwybodaeth a'ch arbenigedd esblygol gyda chydweithwyr, byddwch hefyd yn paratoi a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr allanol Estyn.

Byddwch yn ddelfryd ymddwyn ar gyfer ein gwerthoedd, gan weithredu bob amser er budd plant a dysgwyr, a hyrwyddo a diogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus y byddwch yn dod i gysylltiad â nhw.

Bydd llawer o'ch gwaith yn golygu y byddwch yn rhyngweithio'n uniongyrchol gyda darparwyr, ond bydd y rôl yn mynnu hefyd eich bod yn cydbwyso heriau ychwanegol amrywiol, fel:

- cyfrannu at ddatblygiadau cenedlaethol trwy ddarparu cyngor proffesiynol a gwaith thematig
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol
- sicrhau ansawdd adroddiadau arolygu a gwaith thematig
- cyfrannu at ddatblygiad a newid sefydliadol

Byddwn yn rhoi i chi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i ragori yn y rôl a datblygu medrau newydd.

**Cyflog**: £73,978 – 86,546 y flwyddyn (dyfarniad cyflog i ddod).

**Hyd**: Parhaol

**Diogelu** - Mae rôl AEF yn mynnu cael gwiriad datgelu manylach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Bydd y rôl yn dod â chi i gysylltiad uniongyrchol â phlant neu oedolion bregus, ac yn rhoi mynediad i chi i ddeunydd neu wybodaeth sensitif am blant ac oedolion bregus.

## Gofynion hanfodol

**Cymwysterau**

- Cymhwyster lefel gradd neu gymhwyster cyfwerth.
- Rhaid i chi fod â chymhwyster addysgu cydnabyddedig sydd wedi arwain at Statws Athro Cymwys (SAC) ar gyfer pob swydd, ac eithrio'r swydd Ôl-16/Addysg Bellach

**Profiad**

- O leiaf 3 blynedd o brofiad arwain neu brofiad arbenigol ar lefel uwch neu lefel sefydliad cyfan yn un neu fwy o'r sectorau yr ydym yn eu harolygu
- Hanes profedig o gyflawni deilliannau gwell i ddysgwyr

**Technegol**

- Ymwybyddiaeth o'r newidiadau sy'n digwydd mewn addysg ac arolygu ar hyn o bryd, a'r gallu i ddilyn y datblygiadau diweddaraf ar draws ystod eang o faterion proffesiynol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth ddofn ac eang o faterion addysg cyfredol mewn un neu fwy o'r sectorau rydym yn eu harolygu
- Dealltwriaeth o'r rhanddeiliaid allweddol mewn addysg, a'u cyd-destun gweithredol
- Dadansoddi a dehongli data a thystiolaeth i gefnogi trywyddau ymholi ac ategu barnau

**Gallu**

- Gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan ddangos eglurder a dylanwad
- Gallu i ddefnyddio offer TG yn effeithiol yn eich gwaith bob dydd
- Gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg (ôl-16/colegau addysg bellach ac un swydd uwchradd)

**Ymddygiadau allweddol**

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu a dylanwadu
- Gwneud penderfyniadau effeithiol
- Cyflawni'n brydlon

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn yn Proffiliau Llwyddiant - Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil ar gradd 6.

**Gofynion dymunol**

- Cwblhau hyfforddiant fel Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yn llwyddiannus (Arolygydd Cofrestredig, Arolygydd Ychwanegol neu Arolygydd Cymheiriaid)
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg

# Pam gweithio i Estyn?

Ni yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr yng Nghymru. Un o'n rolau allweddol yw arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru i roi sicrwydd i'r cyhoedd a'r llywodraeth ynghylch safonau addysgol.

Rydym yn helpu darparwyr addysg, fel ysgolion a cholegau, i wella ansawdd a deilliannau. Rydym hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch polisi addysgol ac yn paratoi adroddiadau ar ystod eang o faterion a themâu addysgol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith i'w gweld yma.

Mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddysgwyr yng Nghymru ac rydym yn gwybod mai ein tîm ymroddedig sy'n helpu i wneud i hynny ddigwydd.

Rydym yn credu mewn cefnogi a gwerthfawrogi pob aelod o'n tîm. O'r cychwyn cyntaf, cewch eich croesawu i amgylchedd cyfeillgar a phroffesiynol, lle mae eich syniadau a'ch cyfraniadau o bwys. Fe gewch gyfnod ymsefydlu trylwyr i'ch helpu i ddeall sut mae'ch rôl yn rhan o'n cenhadaeth gytûn. Byddwch yn rhan o rwydwaith cydweithredol o gydweithwyr, yn eich tîm ac ar draws y sefydliad ehangach.

Rydym wedi ymrwymo i'ch helpu i dyfu. Byddwch yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu i feithrin eich medrau a chefnogi eich taith gyrfa, p'un a yw hynny trwy hyfforddiant unigol neu ddatblygiad tîm.

Os yw gwneud gwahaniaeth o bwys i chi a'ch bod eisiau gweithio rhywle sy'n cefnogi eich datblygiad ac yn gwerthfawrogi eich lles, mae Estyn yn lle gwych i weithio.

# Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cefnogi a'u bod yn gallu ffynnu. Yn Estyn, rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau gwahanol a phrofiadau bywyd sy'n ein helpu i gryfhau fel sefydliad a gwneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus ar gyfer y dysgwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn gwybod bod tîm amrywiol yn dod â syniadau newydd, sgyrsiau cyfoethocach a deilliannau cryfach. Dyma pam rydym yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir, diwylliant a phrofiad.

Un flaenoriaeth strategol allweddol yw cynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Mae ein hymrwymiad i recriwtio a denu talent amrywiol yn ymestyn i annog ceisiadau'n weithredol gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Rydym yn mabwysiadu arferion recriwtio cynhwysol, gan gynnwys llunio rhestr fer o ymgeiswyr yn ddall ac rydym yn falch o fod yn gyflogwr sy'n hyderus o ran anabledd, gan gynnig cymorth ag addasiadau trwy ein proses er mwyn gwneud yn siŵr y gallwch fod ar eich gorau.

Trwy gydweithio â'n gilydd a dathlu'r hyn sy'n gwneud pob un ohonom yn unigryw, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth ystyrlon i addysg yng Nghymru.

# Buddion ymuno ag Estyn

Yn ogystal â chydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd, boddhad swydd, diwylliant cefnogol, cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus a datblygiad proffesiynol, gallwch hefyd ddisgwyl manteision eraill, gan gynnwys y canlynol:

- **Cyflog cystadleuol a phwyntiau cynyddrannol** – sy'n golygu y byddwch fel arfer yn cyrraedd uchafswm y raddfa gyflog ymhen dwy/tair blynedd ar ôl ymuno â ni.
- **Hawl hael i wyliau** – 41 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith bob blwyddyn (sy'n cynnwys 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus / braint (pro-rata ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser).
- **Amser lles** – Mae arolygwyr yn cronni 6 diwrnod i ffwrdd bob blwyddyn ar gyfer amser lles, yn ogystal â gwyliau (pro-rata ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser).
- **Cefnogi eich lles** –Rydym hefyd yn darparu rhaglen cymorth i gyflogeion, gwiriadau iechyd blynyddol am ddim, pigiadau ffliw tymhorol, cynllun gofal llygaid am ddim a'r gallu i fanteisio ar Gynlluniau Yswiriant Iechyd trwy Ofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil.
- **Pensiwn rhagorol** – Pan fyddwch yn ymuno ag Estyn, byddwch yn dod yn rhan o gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil fel mater o drefn, sef un o'r cynlluniau pensiwn mwyaf gwerthfawr yn y DU. Rydym yn buddsoddi yn eich dyfodol trwy gyfrannu **27.9%** o'ch cyflog sy'n cyfateb i **£21,431** y flwyddyn, gan eich helpu i gronni pensiwn cryf a sicr ar gyfer yn ddiweddarach mewn bywyd.
- **Cefnogaeth i'ch bywyd teuluol** – Polisïau hael sy'n ystyriol o deuluoedd, gan gynnwys absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.
- **Arbedion di-dreth** – Y gallu i fanteisio ar gynllun beicio i'r gwaith.

# Ymgeisiwch nawr!

**Ymholiadau:** Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â Thîm recriwtio Estyn ar recruitment@estyn.gov.wales. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd oedi wrth i ni ymateb.

**Ymgeisiwch ar-lein:** I wneud cais am y rôl, ewch i - **BwrddSwydd (estynpeoplehr.cymru)**.

**Dyddiad cau:** 10:00am ar 7 Ionawr 2026

**Trefniadau amgen neu ddogfennau hygyrch:** Os hoffech wneud cais neu gael at y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch i drafod eich gofynion

Mae'r ymarfer recriwtio hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil, a chaiff ei reoleiddio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

## Proses ddethol a dyddiadau allweddol

Mae'r broses ddethol yn cynnwys:

- **Didoli ceisiadau cychwynnol:** Bydd y bwrdd dethol yn ystyried pob cais cyflawn. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn eich cais yn bwysig o ran penderfynu a fyddwn yn eich gwahodd i'r cam dethol nesaf.
- **Asesiad:** Gofynnir i chi gwblhau cyfres o dasgau fel rhan o ymarfer ysgrifenedig yn seiliedig ar waith. Bydd y tasgau hyn yn asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'ch sector(au) dewisol. Byddant hefyd yn cynnig cyfle i ddangos eich gallu i ddadansoddi a gwerthuso, yn ogystal â'ch gallu i gyfathrebu'n glir ac yn fanwl gywir. Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, byddwn yn profi eich medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod yr asesiad.
- **Creu rhestr fer:** Bydd bwrdd dethol yn ystyried sgoriau asesu a chreu rhestr fer i wahodd i gyfweliad.
- **Cyfweliad:** Rydym yn defnyddio'r fframwaith Proffiliau Llwyddiant. Yn ystod cyfweliad, cewch eich holi am eich sgiliau a phrofiad a sut rydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl (gan gynnwys ymddygiad). Ar gyfer swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, byddwn yn profi'ch medrau cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn ystod y cyfweliad.

Bydd cyfweliadau ac asesiadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd asesiadau'n cael eu cynnal mewn grwpiau lle gallech gyfarfod ag ymgeiswyr eraill sy'n cael eu hasesu.

Dyddiadau didoli, yr asesiad/cyfweliad i'w cadarnhau. Mae'r amserlen ddangosol rydym yn gweithio yn unol â hi wedi'i chrynhoi isod.

Dyddiad cau 7 Ionwar → Asesiad 26 - 30 Ionawr → Cyfweliad 23 - 27 Chwefror → Dyddiad dechrau disgwyliedig - 1 Medi

Byddwch yn derbyn neges e-bost yn cadarnhau canlyniad eich cais ym mhob cam dethol. Rydym yn gwerthfawrogi ei fod yn golygu llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Byddwn yn rhoi adborth ar lafar ar gais i unrhyw un sy'n cyrraedd y camau asesu a chyfweld ar ôl gorffen y broses ddethol.

**Swyddi gweigion a rhestrau wrth gefn yn y dyfodol:** Os oes modd eich penodi, ond nad oes swydd addas ar gael ar unwaith, efallai y byddwn yn eich ychwanegu at restr wrth gefn. Mae'r rhestr wrth gefn yn ddilys am hyd at ddeuddeg mis o'r dyddiad y byddwn yn cadarnhau canlyniad eich cais. Bydd yr e-bost canlyniad yn cadarnhau a ydych ar restr wrth gefn. Os bydd swydd wag addas yn codi yn ystod y cyfnod hwnnw, efallai y byddwn yn eich argymell ar gyfer apwyntiad. Rydym yn penodi o'r rhestr wrth gefn yn nhrefn teilyngdod.

# Ddeallusrwydd Artiffisial

**Defnydd ymgeiswyr o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI)**

Gall offerynnau deallusrwydd artiffisial (AI) fod yn ddefnyddiol yn ystod y broses ymgeisio. Efallai y byddant yn ddefnyddiol i chi o ran ymchwilio i Estyn a'r rôl rydych yn gwneud cais amdani, rhoi trefn ar eich meddyliau, mireinio eich ysgrifennu neu baratoi ar gyfer cyfweliad.

Fodd bynnag, er y gall AI eich cynorthwyo, ni ddylai ddisodli eich mewnbwn dilys eich hun. Hoffem ddod i'ch adnabod chi fel unigolyn, felly rhaid i unrhyw gynnwys sy'n cael ei greu gyda chymorth AI adlewyrchu eich profiad a'ch llais gwirioneddol.

**Ni ddylech ddefnyddio offerynnau AI i:**

- Orliwio eich cymwysterau neu'ch cyflawniadau
- Camliwio eich profiad neu'ch galluoedd
- Copïo a gludo ymatebion generig neu ymatebion sydd wedi'u creu gan AI heb eu haddasu i sicrhau eu bod yn eich cynrychioli chi'n gywir

Rhaid i bob enghraifft a datganiad yn eich cais fod yn wir, yn ffeithiol gywir a deillio o'ch profiad eich hun. Os caiff llên-ladrad neu gamliwio ei ganfod (gan gynnwys defnyddio AI i gyflwyno syniadau neu brofiadau pobl eraill fel eich rhai chi), gellir tynnu'ch cais yn ôl.

Gweler arweiniad AI i ymgeiswyr y Gwasanaeth Sifil am ragor o wybodaeth ar ddefnydd priodol ac amhriodol.

**Sut mae Estyn yn defnyddio AI**

Mae safbwynt sefydliadol Estyn ar ddefnyddio AI i'w weld yma. Wrth recriwtio, gallwn ddefnyddio offerynnau AI i ategu ein prosesau, er enghraifft i helpu i greu syniadau ar gyfer hysbysebion swyddi, drafftio swydd ddisgrifiadau, asesiadau neu gwestiynau cyfweliad.

Fodd bynnag, ni fyddwn byth yn defnyddio offerynnau AI i wneud penderfyniadau am ddethol neu gyflogi. Ni fyddwn yn mewnbynnu gwybodaeth am ymgeiswyr i offeryn AI. Caiff yr holl ganlyniadau recriwtio eu gwneud gan y panel recriwtio.

## Egwyddorion recriwtio

Mae ein prosesau recriwtio wedi'u seilio ar yr egwyddor o ddewis ar gyfer penodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Rydym yn dilyn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Mae ein prosesau recriwtio hefyd yn cyd-fynd â chôd y gwasanaeth sifil, sy'n rhan o delerau a chynddeiliaid pob gweithiwr sifil.

Mae Côd y Gwasanaeth Sifil yn amlinellu'r gwerthoedd craidd y Gwasanaeth Sifil:

- Gwirionedd
- Cyffelybiaeth
- Di-eithrwydd
- Amcaniaeth

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi trin eich cais dan yr Egwyddorion neu'r Cod Gwasanaeth Sifil a'ch bod yn dymuno cwyno, yn y lle cyntaf , dylech gysylltu â thîm recriwtio Estyn.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch gennym, efallai y gallech ofyn i Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ystyried eich cwyn ymhellach.

regulated by Civil Service Commission